- The webinar series
- Encouragement of beekeepers to take the Basic Certificate including the recruitment of two new Assessors
- Increasing the numbers holding the Bee Health Certificate
- Evaluating the NDB Teaching Beekeeping Course from those who have undertaken it.

The Science Forum has met once during the year and is due to meet again early in 2024. A list of current scientific projects that are underway in the UK, their progress to date and their source of

funding has been prepared and discussed. Further meetings will be held in 2024. An important development is that Kirsty Stainton has now re-joined the National Bee Unit as Technical Manager.

The Annual Hive Count - was repeated in 2023 but no results have become available at the time of writing.

Varroa Levels 2023 – No detailed information available. Maggie Gill reminded the WBKA BHAFF representatives and WBKA Secretary that varroa is still a major cause of colony loss in Wales. Her advice is that beekeepers wishing to reduce varroa treatment should monitor the level of mites in their colonies. Integrated Pest Management techniques should be used when varroa levels become high enough to impact on the health of a colony. Maggie had intended to write an article about IPM for the summer edition of the Welsh Beekeeper. Unfortunately, this was not received but more information can be found on the BeeBase website.

WBKA Technical Publications – Stocks of the WBKA booklet '*There are queen cells in my, what should I do?*' have run out and it is currently being re-printed.

Insurance

The changes to definitions of what constituted membership made over the last two years has enabled us to have more confidence that the information we provided when we sought insurance quotes was accurate. It also enables us to concentrate on other issues such as insurance of young beekeepers (under18) who kept bees independently.

This year we sought quotes from two brokers, Jensten, and Aston Lark (now changed to Howden), the company which is the broker for the BBKA. The process was successful in reducing the overall premium for the WBKA and its Associations by some £1200 for similar cover (see note 1 below) as well as providing cover for independent beekeepers under 18 years of age.

Note 1: The main difference between the two policies is in relation to definitions under Product Liability.

The Jensten policy wording uses the phrase "Sale of bee related products including honey, creams/balms and salves made from products of the hive".

Aston Lark (Howden) uses the description "Manufacture and supply of primary hive products" They have indicated that cover will not apply to the sale of products which contain non hive generated products. Anyone who manufactures such products for sale is advised to consider separate insurance.

Health & Safety

During the last year we have reviewed our Health and Safety Policy and recommended that our member Associations:

- a. Produce a similar document.

b. Nominate a committee member to be responsible for ensuring that appropriate risk assessments are undertaken and any necessary actions taken according to the suggestions made in “Risk Assessments – A simple guide” which is on our website.

To date not all Associations have produced evidence of compliance with this well intended guidance.

Associations are reminded that they need to take steps to identify risks and ensure that those who need to, know what is expected of them to evidence the required duty of care. If these steps, which need not be onerous, are not taken, the safety and health of the public and especially new members, who may not be aware of potential risks, could be compromised. This could lead to the association being found to be at fault in any investigation.

Safeguarding

As mentioned previously in this report, a new WBKA Safeguarding Policy has been published this year and this is supplemented by Safeguarding and DBS Guidance. This links to current legislation and guidance relevant in Wales. It is intended to support member associations to ensure they have appropriate policies and certification, relevant to their particular activities, in place.

Spray Liaison

A non-malicious and thankfully benign spraying event in the south of the Meirionnydd Region in June last year prompted a review of National spraying communications and advice. The review identified a well written UK HM Gov guidance document, the Code of Practice for Using Plant Protection Products, that was not easy to find and most worrying had out-of-date contact information for the WBKA.

All of the WBKA Associations were approached to see if they had spray management processes (to see if anyone had a really good system) and a volunteer with subject matter knowledge (SMK) was sought as the WBKA's representative. Communications with the NBU for the latest spray advice (and to perhaps help amend the Code of Practice for Using Plant Protection Products) was initiated and the much lauded Bee Connect team were approached for help/guidance.

At the time of reporting we are awaiting responses from both the NBU and Bee Connect. We have not found a SMK volunteer. We are keen not to reinvent the wheel although we have had offers to produce a spray map not unlike the current swarm collection map. Bee Connect appears to do all we would need as beekeepers provided all beekeepers and anyone spraying uses it. So the focus is currently on correcting the Code of Practice for Using Plant Protection Products to point at the WBKA website and/or Bee Connect; provided Bee Connect will permit this.

The project is a slow-burn project. And we can understand with all the Asian Hornet activity why the NBU in particular have not yet responded. Aviation based spraying seems to be well reported to Associations and whilst spraying is a significant threat to pollinators, we have not been made aware of any recent worrying events.

Communication is key to this problem. The Code of Practice for Using Plant Protection Products needs to be easier to find and it needs correcting. We need to help anyone spraying to find the Code of Practice and hopefully Bee Connect will be the conduit between sprayers and beekeepers.

If anyone reading this would like to help us please contact paul.pearce@wbka.com

Wales Pollinators' Taskforce

WBKA were represented at two meetings in 2023

Key themes discussed in 2023 were primarily associated with Asian hornets, grasslands, their diversity, connectivity and management:

- a) With relevance to Beekeepers, the Regional Bee Inspector for Wales, Maggie Gill, gave a short presentation on the Asian hornet *Vespa velutina*. This covered its introduction to GB in a clay pot and the latest distribution including a nest found as far as N.Yorkshire and one in Norfolk. The majority of nests, approx. 70, were found along the S coast in Kent. Not all nests were believed to have been found.
- b) The improvement of wildlife corridors in S Wales mainly for Marsh Fritillary butterflies by planting the plugs of the food plant, Devils bit Scabious, and rearing caterpillars at the Welsh National Botanic Garden to return to the wild.
- c) The value of a single cut and collect management for roadside verges to enhance floristic diversity presented by Gwent Green Grid and Denbighshire County Council. Most Councils in Wales now carry single cut with collection for specific verges and open space areas.
- d) The importance of wildflower meadows and how to create them using plug plants for small meadows and green hay for larger meadows, plus cut and collect management and scarification to allow bare ground for seeds to germinate. Related to this a Seed harvesting feasibility study was led by Brecon Beacons National Park and the National Botanic Garden Carmarthen with the aim to develop a network for the sharing of locally sourced, native wildflower seed which can be used to create, restore or enhance grassland habitats.
- e) The effects that overhanging trees and shrubs have on meadows from falling leaves causing enrichment of the sward to the detriment of wild flowers.
- f) There was also discussion on Green Infrastructure in urban areas e.g. green roofs for flat roofs and also bus shelters.

COLOSS

At the November Council Meeting, representatives from the WBKA Associations voted to discontinue the distribution and completion of the COLOSS surveys due to the very poor response from Associations to the 2023 Survey.

NDB (National Diploma in Beekeeping)

We attended the 2023 AGM held during the National Honey Show at Sandown Park.. Margaret Thomas stepped down as President and Clive De Bruyn is now acting President. The 2024 Advanced course will be 5-10 July at Pershore. There will be an NDB exam in 2024. The meeting discussed ways of raising the profile of NDB. Short courses delivered have been demand led.

CONBA (Council of National Beekeeping Associations)

WBKA were represented at both meetings in 2023. Under discussion has been the International Meeting of Young Beekeepers and the feasibility of holding a UK event to prepare junior beekeepers for the International one. The response to Asian Hornets and honey adulteration have also been discussed. Concern has been raised about the diminishing number of Honey Judges and the lengthy process to replace them. These topics are all ongoing. For 2023 the Federation of Irish Beekeepers (FIBKA) started attending meetings again. This was a welcome addition to the Council.

Archive.

The archives remain at the National Library of Wales in Aberystwyth and are added to when required.

APPENDED REPORTS

Appendix 1: Membership 2023

Appendix 2: Accounts Financial Year 2023

Appendix 3: 2023 Year End and 2023 Budget

Declaration: The Trustees declare that they have approved the trustees' report above

Signed on behalf of the charity's trustees.

Signature:

Full name: Caroline Mullinex

Position: Chairperson

Date:



THE WELSH BEEKEEPERS' ASSOCIATION

CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU

Established/Sefydlwyd 1943 Registered Charity/Elusen Gofrestredig – No/Rhif 509929

Adroddiad Blynyddol

1 Ionawr 2023 i 31 Rhagfyr 2023

Ymddiriedolwyr:

Cadeirydd
Is-Gadeirydd
Trysorydd
2014
Ysgrifennydd Cyff.

Caroline Mullinex (etholwyd CCB 2022)
Karen Pratt (etholwyd CCB 2022)
Graham Wheeler (ailetholwyd CCB 2021) – Ymddiriedolwr ers CCB Mawrth
Jenny Shaw (ailetholwyd CCB 2023)
Christopher Clarke (ailetholwyd CCB 2021)
David John Bowles (ailetholwyd yn Ymddiriedolwr CCB 2023)
Keith Davies (ailetholwyd CCB 2023)
David Grace (etholwyd CCB 2022)
Jill Wheeler (ymddeolodd CCB 2023)
Paul Pearce (cyfetholwyd 17 Mai 2023)
Alan Burford (cyfetholwyd 21 Mehefin 2023)

Swyddogion:

Llywydd	David John Bowles (etholwyd CCB 2021)
Is-lywyddion	Fred Eckton
Ysgrifennydd Aelodaeth	Trish Calderbank
Ysgrifennydd Cofnodion	Jill Hill (ymddiswyddodd CCB 2023) swydd wag
Ysgrifennydd Digwyddiadau	Jill Wheeler
Ysgrifennydd Arholiadau	Liz Childerley
Rheolwr y Wefan	Alison Mason
Golygydd	Basil Wolf
Is-olygydd Cymraeg	Elin Meek
Prawf ddarllynydd	Chris Clarke
Swyddog Technegol	Wally Shaw
Swyddog Yswiriant	John Bowles
Swyddog Iechyd a Diogelwch	John Pilgrim
Archif CGC	Karen Pratt
Swyddog COLOSS CGC	Karen Pratt (daeth y swydd i ben Tachwedd 2023)
Swyddog IMYB	Richard Pett
Swyddog Ysgolion	Emma Davies (ymddiswyddodd Hydref 2023) swydd wag

Aelodau Arbenigol:

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
BIBBA (Cymdeithas Gwella Gwenyn a Magwyr Gwenyn)

Noddwyr:

Yr Athro Robert Pickard

Mae pob un o ymddiriedolwyr a swyddogion CGC yn rhoi ei amser yn wirfoddol heb dderbyn tâl neu fanteision eraill. Mae CGC yn ddyledus i'r gwirfoddolwyr hyn am eu hewylllys da a'u hymdrechion parhaus ar ran y Gymdeithas.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried yr arweiniad a gyhoeddodd y Comisiwn Elusennau ynghylch lles

y cyhoedd.

Ein Nodau a'n Hamcanion:

Annog, gwella a hyrwyddo cadw gwenyn ledled Cymru drwy:

- ddatblygu cydweithredu ymysg yr holl wenynwyr ledled Cymru a chyfnewid syniadau a phrofiadau,
- gwella safon cadw gwenyn drwy:
 - i. gyhoeddi llenyddiaeth,
 - ii. darparu a rhoi cymorth i ddarparu cymhorthion a deunyddiau addysgol am gadw gwenyn,
 - iii. hybu hyfforddi a chymhwysu gwenynwyr,
- trefnu arholiadau cenedlaethol ar lefelau amrywiol,
- annog y gymuned i gymryd rhan mewn arsylwi a dysgu am wenyn yn ddiogel, a dod i werthfawrogi gwerth gwenyn yn yr amgylchedd.

Gweinyddu

Mae'r Ymddiriedolwyr yn y rhestr uchod yn cwrdd fel Tîm Rheoli Cymdeithas Gwenynwyr Cymru. Ceir rhestr lawn o'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ar ddiwedd y rhan hon o'r adroddiad hwn.

Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr â Chyngor CGC dair gwaith (ym misoedd Mawrth, Mehefin, a Thachwedd) i adrodd ar weithredu'r Tîm Rheoli ac i gael arweiniad gan yr aelodaeth. Cynhaliwyd pob un o'r cyfarfodydd ac eithrio un mis Mawrth yn rhithiol. Ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn roedd o leiaf 63% (12) o'r Cymdeithasau sy'n Aelodau o CGC wedi'u cynrychioli ac at ei gilydd mynychodd 90% (17) Cymdeithas o leiaf un cyfarfod. Dosbarthwyd cofnodion pob un o gyfarfodydd y Cyngor drwy Ysgrifenyddion y Cymdeithasau. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar 2 Mawrth, 29 Mehefin a 2 Tachwedd yn 2024. Er mwyn lleihau hyd cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol, bydd adroddiadau'r Swyddogion yn cael eu hysgrifennu a'u cylchredeg cyn y cyfarfod. Bydd arweinwyr yr is-bwyllgorau'n cyfeirio at y rhain fel y bo angen yn ystod eu hadroddiadau cryno. Bydd cyfle o hyd i Gynrychiolwyr y Cyngor i holi cwestiynau ac i roi sylwadau ar yr adroddiadau.

Cafodd y Tîm Rheoli gyfarfod ddeg gwaith yn ystod 2023 ac er mwyn lleihau'r teithio, roedd pob un o'r cyfarfodydd yn rhai rhithiol. Bydd y Tîm Rheoli'n cwrdd o leiaf bedair gwaith yn 2024, gyda'r cyfarfod cyntaf i fod ar 10 Ionawr. Mae'r dull a'r dyddiad ar gyfer cyfarfodydd y Tîm Rheoli'n adlewyrchu argaeledd a chyfeiriadau cartref yr Ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl yn gallu mynychu a bod cyn lleied o gostau teithio ag sy'n bosibl. Rhwng y cyfarfodydd y Tîm Rheoli sydd wedi'u hamserlennu, cytunwyd ar weithdrefnau er mwyn cael cytundeb yr ymddiriedolwyr ar gyfer unrhyw faterion brys. Cytunwyd ar fformat agenda safonol ac fe'i mabwysiadwyd. Dosbarthwyd cofnodion llawn pob cyfarfod y Tîm Rheoli drwy ysgrifenyddion y Cymdeithasau. Adnewyddwyd trwyddedau'r Gweminarau a'r cyfarfodydd rhithiol ym mis Hydref 2023 a bydd y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Tîm Rheoli'n parhau i gael eu cynnal yn rhithiol fel bod llai o angen teithio. Mae'r trwyddedau ar gyfer cyfarfodydd rhithiol ar gael i Aelod-Gymdeithasau CGC i'w defnyddio ar gyfer eu cyfarfodydd nhw.

Lle mae'n briodol i'w rolau, gwahoddwyd swyddogion CGC nad ydyn nhw'n Ymddiriedolwyr i fynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli yn ystod 2023 er mwyn helpu gyda gwaith yr ymddiriedolwyr.

Mae polisiau CGC wedi'u diweddarau a'u diwygio lle roedd angen. Ysgrifennwyd polisiau Diogelu a Noddi CGC newydd ac mae'r rhain i'w cael ar wefan CGC www.wbka.com. Cynhyrchwyd dogfen cyfarwyddyd Diogelu a DBS ychwanegol er mwyn rhoi arweiniad i aelod-gymdeithasau ac mae hon yn

cysylltu â'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad cyfoes sy'n berthnasol yng Nghymru. Mae hyn er mwyn helpu cymdeithasau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, yn enwedig o gwmpas gweithgareddau sy'n gofyn am dystysgrif DBS. Hefyd, cytunwyd ar arweiniad i Swyddogion CGC sy'n rhoi cyflwyniadau neu adroddiadau am CGC i gyrff allanol.

Mae CGC wedi gweithio gyda Anaphylaxis UK i helpu i godi ymwybyddiaeth o adwaith alergaidd difrifol i bigiadau gwenyn. Hefyd, mae'r Tîm Rheoli wedi ystyried sut mae'n bosibl annog perchnogion tir i roi gwybod i wenywyr am unrhyw blaleiddiaid y maen nhw'n bwriadu eu defnyddio ar eu tir. Dydy gwenwyno gwenyn mêl gan blaleiddiaid ddim yn ymddangos yn broblem arwyddocaol yng Nghymru. Bydd dogfen ganllawiau yn cael ei rhoi ar wefan CGC yn 2024.

Sefydlwyd gweithgor i gefnogi'r tîm dethol o bump (tri gwenynwr ifanc a dau oedolyn i fynd gyda nhw) i gynrychioli Cymru yng Nghyfarfod Rhyngwladol Gwenynwyr Ifanc (IMYB) yn Slofenia ym mis Gorffennaf. Cafodd y tîm nawdd caredig Llywodraeth Cymru; talodd hyn am y ffioedd mynediad a oedd yn cynnwys prydau bwyd, llety a thrafnidiaeth tra oedden nhw yn Slofenia. Gweler yr adroddiad ar wahân i gael rhagor o wybodaeth. Hyd yma, does dim sôn y bydd cyfarfod o IMYB yn 2024.

Yn 2023 cafodd adolygiad o strwythur CGC ei gwblhau a'i weithredu. Mae cylch gorchwyl pob is-bwyllgor CGC wedi cael ei adolygu'n rhan o hyn. Nawr, mae'r rhan fwyaf o fusnes bob dydd CGC yn cael ei wneud gan bedwar is-bwyllgor a phob un wedi'i gadeirio gan un o Ymddiriedolwyr CGC ac yn adrodd i'r Tîm Rheoli. Mae rhestr o'r is-bwyllgorau hyn a'u haelodau isod: -

Gweinyddu a Chymorth: Cadeirydd – John Bowles (Ymddiriedolwr a Swyddog Yswiriant), Graham Wheeler (Ymddiriedolwr a Thrysorydd), Jenny Shaw (Ymddiriedolwr ac Ysgrifennydd Cyffredinol), David Grace (Ymddiriedolwr a Swyddog Diogelu), Paul Pearce (Ymddiriedolwr), Trish Calderbank (Ysgrifennydd Aelodaeth ac ysgrifennydd cofnodion i'r is-bwyllgor), John Pilgrim (Swyddog Iechyd a Diogelwch).

Dysgu a Datblygiad: Cadeirydd – Caroline Mullinex (Ymddiriedolwr), Karen Pratt (Ymddiriedolwr ac Ysgrifennydd yr Is-bwyllgor), Jenny Shaw (Ymddiriedolwr), Liz Childerley (Ysgrifennydd Arholiadau), Emma Davies (Swyddog Ysgolion – ymddiswyddodd ym mis Hydref 2023 - swydd yn wag ar hyn o bryd), Wally Shaw (Swyddog Technegol), Alison Mason (Gwefeistr), Richard Pett (tan fis Hydref 2023 pan neilltuwyd rôl Swyddog IMYB i weithgor penodol er mwyn rheoli cynrychiolaeth CGC yn IMYB), Lynfa Davies, Trisha Marlow.

Digwyddiadau: Cadeirydd – Karen Pratt tan fis Medi 2023 (Ymddiriedolwr), ar hyn o bryd Alan Burford (Ymddiriedolwr), Graham Wheeler (Ymddiriedolwr a Thrysorydd), Keith Davies (Ymddiriedolwr), Jill Wheeler (Ysgrifennydd Digwyddiadau), Vicky Davies, Martin Anderson, Steve Bromwich.

Golygyddol: Cadeirydd – Jenny Shaw (Ymddiriedolwr), Caroline Mullinex (Ymddiriedolwr ac arweinydd Dysgu a Datblygiad), Chris Clarke (Ymddiriedolwr a phrawf ddarlennydd), Basil Wolf (Golygydd), Emma Davies (Swyddog Ysgolion ymddiswyddodd ym mis Hydref 2023), Elin Meek (Golygydd Cymraeg), Wally Shaw (Swyddog Technegol), Jill Hill (ysgrifennydd i'r is-bwyllgor), Jill Wheeler.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith pob is-bwyllgor yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ac mae eu cylch gorchwyl ar wefan CGC.

Yswiriant: Mae sicrwydd Yswiriant CGC yn seiliedig ar sawl amod, gan gynnwys yr angen am dalu

ffioedd y pen yn brydlon a bod y rhai sy'n dod o dan y polisi yn cael eu cofnodi'n unigol ar system aelodaeth eR2. Mae'r Cymdeithasau i fod i dalu ffioedd y pen erbyn 1 Ionawr bob blwyddyn, ond rhoddir lwfans, dim ond i'r holl arian dyledus gael ei dderbyn erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn honno. Atgoffir Aelod-Gymdeithasau bod angen i'r taliad gael ei wneud yn brydlon. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Yswiriant ac Iechyd a Diogelwch yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Yn dilyn cais gan Gyngor CGC, adolygwyd a diwygiwyd categorïau aelodaeth CGC yn 2022 er mwyn sicrhau bod pob un o Aelodau Anuniongyrchol CGC wedi'u cynnwys o dan ein polisi yswiriant. Mae'n bleser gennym adrodd bod ein hyswiriant bellach yn cynnwys gwenynwyr o dan 18 oed.

Cronfeydd wrth Gefn: Mae'r polisi Cronfeydd Wrth Gefn yn dweud y bydd yr Elusen (CGC) yn cadw cronfa wrth gefn o £10,000 i £13,000. Mae angen y gronfa wrth gefn hon yn ôl y Gyfraith Elusennau i dalu am gostau gweithredol a chytundebol petai'r angen yn codi. Caiff y polisi hwn ei fonitro a'i ddiweddarau'n flynyddol.

Defnyddir yr arian yng nghyfrif cyfredol HSBC nid yn unig i dalu am gostau rhedeg y Gymdeithas ond i ariannu amryw o brosiectau fel rhedeg cyrsiau a lledaenu gwybodaeth, drwy amryw o ddulliau fel y wefan, llyfrynnau a chyhoeddiadau eraill. Mae adroddiad ariannol manwl yn cyd-fynd â'r ddogfen hon.

Llywodraethiant: Yn CCB 2023, ymddeolodd Jill Wheeler fel ymddiriedolwr. Cyfetholodd y Tîm Rheoli ddau ymddiriedolwr newydd, Paul Pearce (Mai 2023) ac Alan Burford (Mehefin 2023). Bydd y penodiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r aelodaeth i'w cadarnhau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024 ar 2 Mawrth. Ar hyn o bryd, mae gennym y nifer llawn, sef deg ymddiriedolwr CGC.

Ym mis Medi 2023, trosglwyddodd Karen Pratt gadeiryddiaeth yr is-bwyllgor Digwyddiadau i Alan Burford.

Yn y CCB ym mis Mawrth 2023 ymddiswyddodd Jill Hill fel ysgrifennydd Cofnodion y Cyngor ac ym mis Hydref ymddiswyddodd Emma Davies fel Swyddog Ysgolion CGC. Rydym yn diolch iddyn nhw i gyd am eu gwaith ar ran gwenyna yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae swydd y Swyddog Ysgolion yn dal yn wag ac mae wedi'i hysbysebu'n ddiweddar drwy gyhoeddi'r disgrifiad swydd. Mae gwaith wedi dechrau i sicrhau bod gan bob Swyddog CGC ddisgrifiadau swydd eglur ac wedi'u diweddarau ac mae'r Tîm Rheoli hefyd yn edrych ar gynlluniau dros dro ar gyfer swyddi allweddol os yw swyddog yn ymddiswyddo neu'n methu gwneud y gwaith am gyfnod o amser. Cydnabyddir nad yw dod o hyd i wirfoddolwyr i ymgymryd â rolau gwirfoddol yn dasg hawdd.

Mae gwaith wedi dechrau i ddiffinio'r strategaethau sydd eu hangen i gyflawni amcanion CGC fel bod modd mesur perfformiad.

Mae Cyfansoddiad CGC wedi cael ei adolygu a chafodd nifer o fân newidiadau er eglurder eu derbyn gan yr aelodaeth yng Nghyfarfod Blynyddol CGC yn 2023.

Aelodaeth: Mae gan CGC bedair ar bymtheg o Aelod-Gymdeithasau sy'n cynrychioli 2103 o Aelodau Cofrestredig, 520 o Aelodau Partner, a 14 Aelod Gwlad a dau grŵp o Aelodau Arbenigol. Fel rhan o'r aelodaeth y pen a godir ar bob Aelod-Gymdeithas, mae'r aelodau Anuniongyrchol yn elwa drwy dderbyn pedwar rhifyn o 'Gwenynwyr Cymru' ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch trydydd parti. Ar hyn o bryd mae tri deg pump o Aelodau Unigol a saith Aelod Anrhydeddus o Gymdeithas Gwenynwyr Cymru. Yn drist iawn, collon ni un o'n Haelodau Anrhydeddus am Oes, C. Wynne Jones, a byddwn yn gweld ei eisiau'n fawr. Mae dadansoddiad manwl o'r aelodaeth yn dod gyda'r adroddiad hwn.

Rydyn ni'n dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru. Mynychodd Kathleen Carroll (Llywodraeth Cymru) a Maggie Gill (Gwasanaeth Archwilio Gwenyn) Gyfarfodydd Cyngor CGC yn 2023 er mwyn cynghori.

Yn dilyn ymholiadau gan Aelod-Gymdeithasau, adolygodd Cyngor CGC categorïau aelodaeth CGC er mwyn sicrhau eu bod nhw'n bodloni eu gofynion. Nawr mae'n ofyniad mai un enw'n unig sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob cofnod yn eR2 ac mai'r person hwnnw a enwir yn unig fydd yn gymwys i ddod o dan yswiriant CGC. Mae partneriaid sy'n byw yn yr un cyfeiriad ag aelod wedi'i gofrestru ac sy'n rheoli'r un gwenyn wedi'u hyswirio os ydyn nhw wedi'u cofnodi'n unigol yn system eR2. Hefyd, dylai aelodau iau o dan 18 oed gael eu rhestru ar wahân yn eR2. Aelodau iau a enwir yn unig fydd yn cael eu hystyried i gynrychioli CGC yng Nghyfarfod Rhyngwladol y Gwenynwyr Ifanc. O fis Ionawr 2024 bydd gofyn i aelodau partner CGC dalu aelodaeth flynyddol y pen o £6 a bydd y ffi i aelodau cofrestredig yn codi i £12 y flwyddyn. Y cynnydd hwn yw'r cyntaf mewn dros 10 mlynedd ac mae'n adlewyrchu'r sefyllfa economaidd bresennol.

Defnyddir aelodau gwlad i bob heb weny'n sy'n dymuno bod yn Aelodau Anuniongyrchol o CGC ac eto dylen nhw ymddangos fel cofnodion unigol yn eR2. Y categori aelodaeth olaf yw Aelodau Lleol a ddylai ymddangos eto yn eR2 fel cofnodion unigol. Does gan Aelodau Lleol ddim gwenyn ac maen nhw'n aelodau o'r Aelodau Gymdeithas nad ydyn nhw'n aelodau Anuniongyrchol o CGC a does dim hawl ganddyn nhw i unrhyw fanteision sy'n dod o fod yn aelod o CGC. Mae mwyafrif Cymdeithas Aelodau CGC bellach yn defnyddio gwasanaeth aelodaeth eR2 a daliodd Trish Calderbank, Ysgrifennydd Aelodaeth CGC ati i ddarparu hyfforddiant i ddefnyddwyr. Hoffem ddiolch i Trish am ei gwaith caled parhaus yn cynorthwyo Cymdeithasau. Ddiwedd 2023 cafodd Kerry Cox ei recriwtio i gefnogi Trish Calderbank yn ei rôl o gynorthwyo cymdeithasau CGC i ddefnyddio eR2. Mae CGC yn parhau i weithio gyda BDI i sicrhau bod system eR2 yn diwallu gofynion Cymdeithasau yng Nghymru.

Gwefan: Mae'r wefan, a lanswyd yn 2022, yn cael ei diweddarau'n rheolaidd ac mae data dadansoddi diweddar yn dangos cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r safle. Mae'r wefan yn adlewyrchu polisi iaith CGC. Rydyn ni'n diolch i Alison Mason am ei gwaith yn datblygu ac yn cynnal a chadw ein gwefan.

Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru: Llwyddwyd i gyhoeddi pob un o'r pedwar rhifyn chwarterol yn ystod y flwyddyn. Hoffem ddiolch i'n Golygydd, Basil Wolf, am ei ymroddiad i gynhyrchu'r cylchgrawn. Hefyd, rydym yn ddiolchgar i'r lluo o aelodau CGC sydd wedi rhoi erthyglau a ffotograffau i'r cylchgrawn. Mae'n bosibl lawrlwytho pedwar copi diweddaraf y cylchgrawn o wefan CGC ac mae rhifynnau electronig blaenorol ar gael gan yr archifydd, Karen Pratt, fel ffeiliau electronig karen.pratt@wbka.com.

Cyhoeddiadau: Mae'n bosibl i Gynrychiolwyr Cymdeithasau gasglu copiâu wedi'i hargraffu o bob un o'r llyfrynnau a'r cardiau clefydau a gyhoeddwyd gan CGC, a hynny yng Nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth neu mae'n bosibl eu harchebu ymlaen llaw yng Nghynulliad Blynyddol CGC ddiwedd mis Mawrth. Bydd cyflenwadau'n cael eu hanfon at gymdeithasau dim ond iddyn nhw gytuno i dalu am y costau sy'n codi.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithio gyda nifer o asiantaethau allanol yn ystod 2023 i sicrhau bod gwenynwyr Cymru yn cael gwybodaeth lawn ac yn cael eu cefnogi ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop. Rhoddir rhestr o'r cyfarfodydd allanol a fynychwyd gan CGC isod.

Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn (Y DU): Mae'r Bee Health Advisory Forum (BHAf) yn gyfarfod wedi'i drefnu gan Lywodraeth y DU lle mae cynrychiolwyr o bob Cymdeithas Wenyna yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â NBU, APHA, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol, ac ati. Mae'n cynnig cyfle i drafod a dylanwadu ar faterion cyfredol ac arfaethedig a all fygwth lles ein gwenyn. Mae'r eitemau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio wedi'u cynnwys yn fwy manwl mewn adroddiad ar wahân.

Fforwm Peillwyr Cymru: Fforwm o dan nawdd Llywodraeth Cymru yw hwn sy'n dod ag amrywiaeth o grwpiau ynghyd sy'n cynrychioli mudiadau sydd â diddordeb mewn diogelu'r amgylchedd gwyllt a gwella rheoli tir er lles peillwyr o bob math, yn amrywio o ieir bach yr haf, pryfed hofran i gacwn a gwenyn mêl. Rydym ni'n credu y bydd beth bynnag sy'n dylanwadu ar y dirwedd gorfforol a rheolaeth y tir i unrhyw beilliwr, ac yn ei wella, hefyd o fudd i wenyng mêl.

CONBA (Cyngor Cymdeithasau Gwenyna Cenedlaethol): Mae Cymdeithasau Gwenyna Cymru, Lloegr, yr Alban ac Ulster yn ogystal â Chymdeithas Ffermwyr Gwenyn (Bee Farmers Association) gyda'i gilydd yn ffurfio CONBA (Council of National Beekeeping Associations) sy'n cefnogi buddiannau pob gwenynwr a gwenyna yn y DU. Mae Ffederasiwn Gwenynwyr Iwerddon, sy'n cynrychioli gwenynwyr yn Iwerddon, yn mynychu cyfarfodydd CONBA hefyd. Mae'n rhoi cyfle inni ddatblygu strategaethau ar y cyd i ymdrin ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys cynlluniau'r llywodraeth.

Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru: Fe'i sefydlwyd yn gyntaf yn 1904 ac fel Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd yn 1963 gan gynnwys y Sioe Fêl y mae CGC yn cynnig cymorth a chefnogaeth.

Sioe Fêl Genedlaethol (y DU) / National (UK) Honey Show (NHS): Yn 2022 daeth CGC yn aelod o'r Sioe Fêl Genedlaethol, sef y corff sy'n trefnu ac yn rhedeg Sioe Fêl flynyddol sy'n agored i bob gwenynwr gymryd rhan ynddi. Mae'r NHS yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol o'i aelodau ar y cyd â'r Sioe Fêl.

NDB (Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyna): Cafodd CGC ei chynrychioli yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y corff sy'n rheoli ac yn dyfarnu'r cymhwyster 'lefel gradd' mewn gwenyna yn ogystal â rhedeg nifer o gyrsiau byr i addysgu gwenynwyr.

Cyfarfodydd a Fynychwyd yn 2023

Cyfarfodydd Mewnol CGC yn 2023:

10 Ionawr	Y Tîm Golygyddol: rhithiol
18 Ion	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
24 Hydref	Pwyllgor Dysgu a Datblygu: rhithiol
31 Ionawr	Y Tîm Golygyddol: rhithiol
15 Chwefror	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
21 Chwefror	Y Tîm Golygyddol: rhithiol
4 Mawrth cyd	CCB a Chyfarfod y Cyngor, Plas Dolerw: wyneb yn wyneb ac yn rhithiol ar y cyd
14 Mawrth	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
16 Mawrth	Gweithgor IMYB: rhithiol
24 Mawrth	Pwyllgor Digwyddiadau: wyneb yn wyneb
25 Mawrth	Tîm IMYB: wyneb yn wyneb

19 Ebrill	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
25 Ebrill	Pwyllgor Dysgu a Datblygu: rhithiol
10 Mai	Gweithgor IMYB 17 Mai: rhithiol
17 Mai	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
22 Mawrth	Gweithgor IMYB: rhithiol
13 Mehefin	Gweithgor IMYB: rhithiol
19 Mehefin	Gweithgor IMYB: rhithiol
21 Mehefin	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
24 Mehefin	Cyfarfod y Cyngor: rhithiol
28 Mehefin	Gweithgor IMYB: rhithiol
8 Gorffennaf	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
14 Gorffennaf	Y Tîm Golygyddol: rhithiol
18 Gorffennaf	Pwyllgor Dysgu a Datblygu: rhithiol
19 Gorffennaf	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
22 Gorffennaf	Pwyllgor Digwyddiadau: wyneb yn wyneb
5 Medi	Y Tîm Golygyddol: rhithiol
12 Medi	Pwyllgor Gweinyddu a Chymorth: rhithiol
20 Medi	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
11 Hydref	Pwyllgor Dysgu a Datblygu: rhithiol
4 Tachwedd	Cyfarfodydd y Cyngor: rhithiol
15 Tachwedd	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
12 Rhagfyr	Y Tîm Golygyddol: rhithiol

Cynrychiolaeth CGC mewn Cyfarfodydd Allanol yn 2023:

Caroline Mullinex (C.M.), Jenny Shaw (J.S.), John Bowles (J.B.), Wally Shaw (W.S.), Keith Davies (K.D.), Alan Burford (A.B.)

16 Mawrth	Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: rhithiol (W.S. a J.B.)
17 Mawrth J.S.)	Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru: rhithiol (W.S., J.B. a
21 Ebrill	CONBA: wyneb yn wyneb (J.S.)
27 Ebrill	Gweithlu Peillwyr Llywodraeth Cymru: wyneb yn wyneb (K.D.)

20 Mai	Cinio Diwrnod Gwenyn y Byd Bees Abroad (J.B.)
22 Mehefin	Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: rhithiol (W.S. a J.B.)
10 Hydref	Pwyllgor Sioe Fêl y Sioe Amaethyddol Frenhinol: wyneb yn wyneb (A.B)
25 Hydref	Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: rhithiol (W.S.)
27 Hydref	CONBA: wyneb yn wyneb (C.M. a J.S.)
26 Hydref	CCB NHS: wyneb yn wyneb (J.S.)
27 Hydref	CCB NDB: wyneb yn wyneb (C.M.)
3 Tachwedd	Gweithlu Peillwyr Llywodraeth Cymru: rhithiol (K.D.)
7 Rhagfyr	Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: rhithiol (W.S. a J.B.)

ADRODDIADAU

Adroddiad Trysorydd CGC, Blwyddyn Ariannol 2023

Cyllideb Diwedd Blwyddyn yn erbyn Cyllideb 2023

Y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn oedd colled o £5k yn erbyn colled o £9k yn y gyllideb wreiddiol, a hynny oherwydd incwm ychydig yn uwch oddi wrth aelodau unigol ac o'r confensiwn oherwydd i ragor o bobl fynychu. Rydym hefyd wedi cael nawdd ar gyfer IMYB (Cyfarfod Rhyngwladol Gwenynwyr Ifanc) gan Lywodraeth Cymru a gan y Cymdeithasau Lleol a oedd ag aelodau yn cymryd rhan yn yr IMYB; felly rydym wedi gallu cadw at y gyllideb gyffredinol ar gyfer digwyddiad IMYB, sef £1700.

O ran gwariant:

- Dydyn ni ddim wedi gwario'r £1500 a gyllidebwyd ar lyfrynnau eleni.
- Newidion ni i frocer newydd, Howden. Mae hyn wedi golygu arbed £1200 yn erbyn aros gyda Jensten.
- Mae costau meddalwedd cyffredinol yn cadw at y gyllideb gan gynnwys y trwyddedau GoTo parhaus.
- Roedd costau hyfforddi ac arholiadau o fewn y gyllideb gyffredinol yn hawdd.
- Roedd costau'r cynulliad ychydig dros y gyllideb, ond gwrthbwysswyd hyn gan yr incwm uwch o werthu tocynnau mynediad.

Cyllideb 2024

Incwm:

- Mae'r swm y pen anuniongyrchol yn dal i fod yn £9 (cyfradd 2023) yn seiliedig ar aelodaeth ar gyfer 2023 o 2103 o aelodau.
- Y cynnig yw na fyddwn yn newid ffioedd aelodau unigol.
- Mae incwm hysbysebu wedi cynyddu 10% gan ddilyn cynigion y Tîm Golygyddol.
- Mae incwm y cynulliad wedi cynyddu 10% gan ddilyn cynnig y Tîm Digwyddiadau.

- Mae'r incwm o'r gweithdai yn rhagdybio rhaglen yn cynnwys cwrs ynghyd â 3 gweithdy yn seiliedig ar 2023.

Gwariant:

- Prosiectau Arbennig:
 - Ar hyn o bryd dydy hi ddim yn glir a fydd yr IMYB yn digwydd eleni, lleoliad posibl yn yr Emiradau Arabaidd Unedig yw'r unig leoliad y soniwyd amdano hyd yn hyn. O edrych ar y gost i gefnogi presenoldeb yn llawn yn y lleoliad hwn, yr amcangyfrif yw £5500. Oherwydd y diffyg a ragwelir ar gyfer y flwyddyn o achos hyn, mae'r Ymddiriedolwyr wedi dod i'r casgliad mai dim ond cyllid rhannol fyddai'n bosibl eleni pe bai'r digwyddiad yn mynd rhagddo, hyd yn oed os bydd hi'n bosibl dod o hyd i nawdd eto.
 - Mae cyllideb ar gyfer ailargraffu llyfryn wedi'i chynnwys.

Canlyniad wedi'i Ragamcanu

Mae'r gyllideb ddrafft fel y'i cyflwynwyd yn rhagamcanu colled o tua £5,000 yn erbyn colled o £9k a ragwelwyd a wnaed ar ddechrau 2023 yn rhan o'r dadansoddiadau y Pen ar y pryd.

Rhagamcanu Cyllideb 2025 a'r Cynnig y Pen

Er mwyn llywio'r drafodaeth ar incwm y Pen ar gyfer 2025, rwyf wedi paratoi rhagamcan ar gyfer 2025. Mae incwm y pen yn seiliedig ar gyfraddau newydd 2024 ac aelodaeth 2023. Rydym yn rhagdybio y bydd prisiau hysbysebu yn cynyddu 10% a'r holl ffrydiau incwm eraill heb eu newid. Mae gwariant ar bob prif eitem yn cynyddu 5%. Y canlyniad yw diffyg rhagamcanol o tua £1k.

Ar sail y rhagamcaniad hwn a'r colledion gwell a ragwelwyd ar gyfer 2023, argymhellwyd i'r Cyngor ym mis Tachwedd y dylai lefelau anuniongyrchol y pen ar gyfer aelodau ar gyfer 2025 gael eu cadw ar lefel 2024. Cymeradwyodd Cyngor mis Tachwedd yr argymhelliad, i'w gymeradwyo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

Dysgu a Datblygu (L&D) – yn cynnwys Adroddiad yr Ysgrifennydd Arholiadau

Cyfarfodydd

Daliodd yr is-bwyllgor Dysgu a Datblygu ati i gynnal cyfarfodydd rhithwir chwarterol rheolaidd trwy gydol 2023.

Cyflwynodd Emma Davies ei hymddiswyddiad ym mis Hydref felly daeth swydd y Swyddog Ysgolion yn wag. Mae Swyddog IMYB bellach yn adrodd yn uniongyrchol i weithgor bach a sefydlwyd yn benodol i reoli rhan CGC yn IMYB yn y dyfodol.

Mae L&D wedi parhau i weithio gyda'r Pwyllgorau Golygyddol a Digwyddiadau i roi cynnwys i'r cylchgrawn a mewnbwn i Raglen Cynulliad y Gwanwyn.

Arholiadau ac Asesiadau

Llwyddodd 30 o aelodau i basio Asesiad Sylfaenol CGC yn 2023, llawer â chlod ac ychydig â rhagoriaeth.

Penodwyd dau Aseswr Sylfaenol newydd ac rydyn ni'n gobeithio gallu recriwtio rhagor yn y dyfodol i gefnogi cynllunio olyniaeth yn y maes hwn.

Llwyddodd 12 o aelodau CGC i ennill Tystysgrif Iechyd Gwenyn BBKA (BHC) yn 2023 ac mae'r cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n sefyll, yn rhannol o leiaf, oherwydd yr anogaeth a roddwyd yng ngweithdy paratoi BHC a gynhalion ni ddiwedd 2022.

O ran y modiwlau, unwaith eto cafodd aelodau CGC rai canlyniadau gwych yn 2023. Cafwyd 18 o lwyddiannau modiwl, gan gynnwys 3 gyda Rhagoriaeth a 10 gyda Chlod. Dyfarnwyd y dystysgrif Theori Ganolradd i 2 ymgeisydd gyda chlod. Hefyd, enillodd un o'r ymgeiswyr hyn y dystysgrif Gwenynwr Cymwys (a ddyfarnwyd ar ôl ennill y dystysgrif Theori Ganolradd ar ôl pasio'r asesiad Hwsmonaeth Gyffredinol cyn hyn).

Darparon ni 2 leoliad arholiad ym mis Mawrth a mis Tachwedd i ymgeiswyr nad oedden nhw'n dymuno sefyll arholiadau'r modiwl ar-lein ac rydyn ni wedi parhau i gefnogi aelodau CGC sy'n sefyll arholiadau ac asesiadau BBKA trwy dalu ffioedd aelodaeth arholiadau drostyn nhw.

Rydyn ni'n llongyfarch pob un o'r ymgeiswyr llwyddiannus ac yn diolch i bawb sydd wedi helpu i hwyluso'r arholiadau a'r asesiadau hyn i'n haelodau.

Gweminarau

Digwyddodd 9 gweminar byw arall yn 2023 ar amrywiaeth o bynciau, gan ddod â chyfanswm gweminarau CGC a gyflwynwyd bellach i 43. Ers i ni ddechrau'r gyfres gweminarau yn 2020, mae bron i 10,000 wedi cofrestru i'w dilyn. Fel arfer, rydyn ni'n gallu rhoi dolen i unrhyw un sydd wedi cofrestru er mwyn gwyllo ar "dal i fyny" am gyfnod cyfyngedig fel nad oes rhaid i unrhyw un golli allan oherwydd gwrthdaro yn y dyddiadur neu oherwydd cysylltedd gwael.

Rydyn ni'n dal i fod yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyflwyno yn ein gweminarau, ac i bawb sydd wedi'u cefnogi nhw, o fewn CGC a thu hwnt.

Ysgolion

Yn ystod 2023, awgrymwyd y dylai CGC ystyried darparu Aelodaeth Ysgolion. Bydd y gwaith ar hyn, a gwaith ar ddatblygu adnoddau CGC i'w defnyddio gan ysgolion yng Nghymru, yn cael eu datblygu pan fydd swydd y Swyddog Ysgolion wedi'i llenwi.

Arian Grant Wax Chandler

2023 oedd blwyddyn 2 cyfnod y cyllid grant a, gyda chymorth uniongyrchol y cyllid hwn, llwyddon ni gynnal/cefnogi'r digwyddiadau canlynol i aelodau CGC: -

Gweithdy yn y Cynulliad ar Reoli Varroa

2 x Gweithdy Microsgopeg Paill – wedi'u cynnal mewn lleoliadau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

1 x Gweithdy Anatomeg a Dyrannu – a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru

Cwrs Paratoi 3 diwrnod Hwsmonaeth Gyffredinol – a gynhaliwyd yng Nghanolbarth Cymru

Gweithdy 2 ddiwrnod Dysgu Cadw Gwenyn – a gynhaliwyd ychydig dros y ffin yn Swydd Amwythig (lle cymerodd 10 aelod o CGC ran).

Mae'r ail adroddiad adborth blynyddol yn cael ei anfon at y Worshipful Company of Wax Chandlers a bydd hwn yn cael ei gyhoeddi yn rhifyn Gwanwyn 2024 o Gwenynwyr Cymru.

Unwaith eto, rydyn ni'n diolch i bawb sydd wedi helpu i gyflwyno a hwyluso'r digwyddiadau hyn ac yn ategu ein diolch i'r Wax Chandlers y mae eu cyllid hael wedi gwneud y rhaglen hon yn bosibl.

Llyfryn

Dechreuon ni edrych ar gyhoeddi llyfryn CGC newydd yn ystod 2023 a disgwylir i benderfyniad gael ei wneud yn 2024 ynghylch a ddylen ni fwrw ymlaen â hyn ai peidio, ac os felly ym mha fformat.

Pwyllgor Digwyddiadau

Eleni cynhaliwyd Cynulliad y Gwanwyn ar 25 Mawrth. Roedd mwy o fynychwyr, 449. Roedd 11 stondin Fasnach, a 7 stondin o ddiddordeb cyffredinol. Hefyd roedd 2 weithdy y bwriadwyd eu cynnal yn ystod y dydd, un yn cael ei redeg gan Lynfa Davies ar 'Reoli Varroa', canslwyd yr ail 'Arholiadau Modiwl BBKA' oherwydd salwch. Hefyd cafwyd gweithdy anffurfiol wedi'i anelu at wenynwyr ifanc. Cefnogodd 28 o stiwardiaid y gwaith o redeg y sioe ar yr y diwrnod yn ogystal â'r aelodau a helpodd i osod popeth ar y dydd Gwener. Eleni eto, defnyddion ni Sum Up ar gyfer taliadau ymlaen llaw ac ar y drws, felly roedd yr aelodau'n gallu defnyddio cerdyn credyd neu ddebyd i dalu. Oherwydd amgylchiadau annisgwyl bu'n rhaid i ddau o'r siaradwyr dynnu'n ôl ar y funud olaf ond cymerodd Lynfa Davies a Wally Shaw drosodd eu slotiau darlithoedd a diolchwn i'r ddau am gamu i'r adwy ar fyr rybudd.

Yn ystod Gŵyl y Gwanwyn, 19/21 Mai, cefnogodd 12 aelod i stiwardio'r stondin. Helpodd y tîm digwyddiadau, Martin Anderson, Vicky Davies, Jill a Graham Wheeler, i osod y stondin a'i thynnu i lawr. Bu'r stondin yn boblogaidd gan aelodau'r cyhoedd a gwenynwyr, a chodwyd £70 i Bees Abroad wrth rollo canhwylau. Gwaetha'r modd, doedden ni ddim yn gallu dod o hyd i gwch arsylwi gan wenynwyr lleol sy'n aelodau.

Yn ystod y Sioe Frenhinol o 24 i 27 Gorffennaf, roedden ni yn ôl yn Neuadd De Morgannwg. Helpodd 23 aelod i stiwardio'r stondin dros y pedwar diwrnod, cafodd y stondin ei lleoli fel bod modd mynd ati drwy gydol y cyfnod pan oedd beirniadu'r Sioe Fêl yn digwydd. Mae'n rhaid diolch i'r tîm Digwyddiadau a helpodd i osod a rhedeg y stondin yn llwyddiannus, cafodd David Grace ei gyfsweld ar gyfer S4C hyd yn oed. Helpodd Martin Anderson, Vicky Davies a Graham Wheeler, i osod y stondin a'i thynnu i lawr.

Darparon ni stondin wybodaeth ar gyfer Cynhadledd BIBBA - 2/3 Medi, ym Mhrifysgol Cymru, Caerfyrddin. Cafodd y stondin ei gosod a'i thynnu i lawr gan Vicky Davies gydag Alison Fraser yn cadw ei llygad ar y stondin yn ystod y digwyddiad.

Mae'r gwaith i gynllunio Cynulliad Gwanwyn 2024 ar y gweill gyda masnachwyr a phedwar siaradwr wedi'u trefnu: Jo Widdicombe - BIBBA, anerchiad agoriadol, Pam Hunter - 'Pheromones - or Bees make it by smell!', Kirsty Stainton - 'Varroa', Andy Pedley - 'Food Safety for the Beekeeper', Clare Densley a Martin Hann - 'What the books don't tell you and why bees change their minds'.

Yn ystod y flwyddyn, ymunodd dau aelod newydd â'r pwyllgor digwyddiadau. Steve Bromwich sydd wedi cefnogi'r cynulliad ers blynyddoedd lawer gyda'i sgiliau TG, ac sydd bellach hefyd yn cefnogi'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol gyda'i offer TG ac Alan Burford fel yr Ymddiriedolwr Arweiniol Digwyddiadau newydd.

IMYB (Cyfarfod Rhyngwladol Gwenynwyr Ifanc/*International Meeting of Young Beekeepers*)

Dewisodd CGC dri gwenynwr ifanc i gynrychioli Cymru yn yr IMYB a gynhaliwyd yn Slofenia ym mis Gorffennaf. Y rhai a ddewiswyd oedd Thomas Barclay (Conwy) 16 oed, Emanuel Coles (Caerdydd) 14 oed a Rhodri Terrell (Caerdydd) 14 oed. I fynd gyda'r gwenynwyr ifanc, dewiswyd Richard Pett (Swyddog IMYB) ac Emma Davies (Swyddog Ysgolion). Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am roi nawdd a oedd yn talu am holl gostau'r timau tra oedden nhw yn Slofenia. Mae'r digwyddiad yn dod â gwenynwyr ifanc 12 i 17 oed o bob rhan o'r byd ynghyd i gymharu eu gwybodaeth a'u sgiliau, i sefydlu cyfeillgarwch newydd ac i ddarganfod gwledydd a diwylliannau eraill yn ystod digwyddiad 4 diwrnod.

Teithiodd tîm Cymru gyda'r timau o'r Alban a Lloegr gan gymryd rhan lawn yn y digwyddiad. Dyma'r tro cyntaf i CGC ddewis tîm llawn i gynrychioli Cymru yn y digwyddiad a daeth y tîm yn 22ain credadwy o'r 32 tîm a fynychodd. Roedd aelodau'r tîm yn glod i Gymru, a'r gobaith yw adeiladu ar y profiad a gafwyd er mwyn mynychu'r cyfarfod yn y blynyddoedd i ddod. Diolch i bawb a fu'n rhan o'r trefniadau ar gyfer y gwenynwyr ifanc sy'n mynychu'r IMYB ac a aeth gyda nhw.

Mae CGC yn teimlo bod y digwyddiad hwn yn rhoi profiad gwerthfawr i wenywyr ifanc ac yn gobeithio y byddwn mewn sefyllfa i anfon tîm yn y dyfodol. Dydy manylion IMYB 2024 ddim wedi'u cyhoeddi eto. Os bydd cyfarfod IMYB yn 2024, rydyn ni'n gobeithio gallu dewis tîm o blith aelodau iau CGC. Wrth i gostau teithio a chostau eraill godi, bydd angen i ni chwilio am nawdd i helpu i ariannu tîm Cymru sy'n mynychu'r digwyddiad.

Gwefeistr

Dim ond ers mis Medi 2023 mae Google Analytics ar ei ffurf bresennol wedi bod ar gael ar y wefan hon. Felly mae'r canlyniadau isod ar gyfer y chwarter diwethaf yn unig.

Yn y cyfnod hwnnw, rydyn ni wedi cael 876 o ddefnyddwyr newydd, gyda'r mwyafrif yn dod o'r DU. Hefyd, mae gennym ddilynwyr yn UDA, Tsieina, Awstralia, Iwerddon, Canada a'r Almaen, (wedi'u rhestru yn nhrefn niferoedd defnyddwyr, o'r mwyaf i'r lleiaf).

Ar ôl cyrraedd y wefan, ein tudalennau mwyaf poblogaidd yw cyhoeddiadau CGC, Aelod-Gymdeithasau, gweminarau CGC, cylchgrawn CGC, Heidiau, Cyrsiau Hyfforddi Dechreuwr, Aelodaeth i Gymdeithasau ac i Unigolion, a Pwy Ydym Ni, eto wedi'u rhestru o'r rhai a ddefnyddir fwyaf, i'r rhai a ddefnyddir leiaf.

Mae'r amser ymgysylltu ar gyfartaledd ar gyfer pob tudalen yn debyg iawn i bob defnyddiwr heblaw am 'Aelodaeth i Gymdeithasau ac Unigolion' lle mae'r defnyddwyr yn treulio 60% yn hirach nag ar unrhyw un o'r tudalennau eraill a restrir.

Mae'r amser ymgysylltu ar y wefan gyfan yn dangos mai defnyddwyr o Awstria, Iwerddon, y DU a Chanada sy'n treulio hiraf ar y wefan.

Mae ystadegau cynulleidfa'r wefan yn dangos cynnydd yn agos at ddyddiadau gweminarau ac maen nhw'n dringo eto yn ystod wythnos gyntaf mis Rhagfyr wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Yn olaf, mae 52% o'n defnyddwyr yn cyrchu ein gwefan gan ddefnyddio cyfrifiadur bwrdd gwaith/gliniadur, 44% drwy ddefnyddio ffôn symudol a dim ond 3% sy'n defnyddio tabled.

Golygyddol

Mae'r Pwyllgor Golygyddol wedi goruchwyllo'r gwaith o gyhoeddi pedwar rhifyn print o gylchgrawn Gwenynwyr Cymru, ac mae'r rhain ar gael ar-lein ar wefan CGC. Mae'r cylchgrawn wedi bod yn ffordd o gyflwyno newyddion CGC a'r Cymdeithasau ac mae wedi cynnig amrywiaeth o erthyglau o ddiddordeb technegol a chyffredinol i wenywyr, gyda dros bedwar deg o awduron gwahanol wedi cyfrannu. Adroddwyd ar weithgareddau Dysgu a Datblygu yn rheolaidd ac mae ein cysylltiad â'r Worshipful Company of Wax Chandlers wedi cael sylw. Mae'r golygydd hefyd wedi gweithio gyda Wally Shaw ar adargraffiad o'r llyfryn 'Mae celloedd brenhines yn fy nghwch gwenyn – beth dylwn i ei wneud?'

Swyddog Technegol

Gwasanaeth Archwilio Gwenyn – Mae CGC yn dal i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Archwilio Gwenyn yng Nghymru. Dechreuodd Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol Cymru, Maggie Gill, swydd ymchwil gyda FERA ar ddechrau 2024. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Daniel Baxter sy'n cymryd ei lle fel Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol Cymru ar gyfer 2024. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r adroddiad blynyddol gan y Gwasanaeth Arolygu yng Nghymru wedi bod yn rhan sylweddol o rifyn gaeaf ein cylchgrawn. Rydym yn deall y gallai'r cynnydd yn y llwyth gwaith a grëwyd gan yr adroddiadau ar Gacwn Asia yn yr hydref fod wedi gohirio cyhoeddi'r adroddiad hwn ond gobeithio y bydd ar gael i'w gynnwys yn rhifyn gwanwyn 2024.

Queen Rear-along – Llyfryn oedd hwn, a gynhyrchwyd gan yr Uned Wenyn Genedlaethol (NBU), a gyflwynwyd i CGC gyda chais i'w anfon allan gyda Rhifyn Gwanwyn 2023 o Wenywyr Cymru. Gofynnodd CGC i unrhyw lyfryn o'r fath a ddsberthir gan CGC fod yn ddwyieithog. Oherwydd newidiadau i bersonél yn y NBU, cafodd y prosiect hwn ei roi o'r neilltu, a dydyn ni ddim wedi clywed rhagor.

Datblygiadau yn ystod 2023 – dydw i ddim yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau nodedig yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ond mae'r cyrchoedd gan Gacwn Asia wedi cynyddu'n fawr 72 o nythod wedi'u lleoli a'u dinistrio wedi hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi bod yn ne-ddwyrain Lloegr ond gwelwyd rhai mor bell i fyny'r arfordir dwyrain Lloegr â Swydd Efrog. Mae'n bleser gen i roi gwybod nad welwyd unrhyw nythod cacwn Asia yng Nghymru hyd yma, ond efallai mai dim ond mater o amser yw hi.

Mae hyn i gyd wedi creu llawer iawn o waith i APHA ac mae pryderon bod hyn wedi bod ar draul cadw llygad fel arfer am AFB ac EFB ond does dim tystiolaeth bod hyn yn wir. Mae pob nyth cacwn yn cael ei gasglu a'i gludo i NBU i gael archwiliad post-mortem. Mae hyn yn cynnwys eu cyflwr datblygiad, h.y. a ydyn nhw'n cynnwys unrhyw unigolion aeddfed rhywiol (gwenyn gwryw a breninesau). Dydy hyn ddim mor hawdd o bell ffordd ag y mae gyda gwenyn mêl gan nad yw'n bosibl adnabod breninesau cadwn yn ôl sut maen nhw'n edrych yn allanol. Yn ôl eu pwysau maen nhw'n wahanol i'r gweithwyr yn bennaf a dim ond trwy ddyrannu y mae'n bosibl cadarnhau hyn. Maen nhw hefyd yn cael eu proffilio am eu DNA i wirio a ydyn nhw'n gysylltiedig â nythod y daethpwyd o hyd iddyn nhw mewn blynyddoedd blaenorol a fyddai'n awgrymu poblogaeth sefydledig sydd wedi osgoi cael ei chanfod. Mae'r nifer enfawr o nythod wedi creu ôl-groniad (*backlog*) enfawr, a fydd y canlyniadau ddim ar gael tan ryw bryd ym mis Chwefror 2024. Y strategaeth bresennol gyda Chacynen Asia yw ei gwahardd ond os bydd poblogaeth yn ymsefydlu, cyfyngu arni fydd y nod. Gan ei bod yn hysbys bod y ffrynt ymlledol yn symud ymlaen tua 60km y flwyddyn, bydd hon yn dasg ddigon diddiolch. Ar hyn o bryd does neb yn gwybod a fydd hinsawdd yn cyfyngu ar Gacynen Asia yn y DU.

Cyfarfodydd Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn (BHAF) – Bu pedwar cyfarfod o'r fforwm (42^{ain}-46^{ain} a phob un yn rhithiol) yn ystod y flwyddyn gyfredol. Roedd yr olaf o'r rhain i fod i fod wyneb yn wyneb yn y Sioe Fêl Genedlaethol ond methwyd gwneud hynny oherwydd pwysau o ganlyniad i Gacynen Asia. Bu John Bowles a Wally Shaw yn cynrychioli CGC yn y cyfarfodydd hyn. Eitem barhaus ar agenda'r cyfarfodydd hyn oedd y Cynllun Gweithredu ar gyfer yr ail Gynllun Gwenyn Iach sy'n estyn hyd at 2030. Mae'r rhan fwyaf o'r fenter yn y rhaglen hon yn dod o dan y pennawd addysg i wenywyr (ac mae'r adroddiad Dysgu a Datblygu yn dogfennu CGC 2023 arwain digwyddiadau yn y gofod hwn). Mae Cacynen Asia wedi dominyddu'r 45fed a'r 46fed cyfarfod ac mae diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa wedi'u hanfon at y rhanddeiliaid drwy gydol diwedd yr haf a'r hydref - ffynhonnell y wybodaeth uchod. Yng nghyfarfod mis Hydref, rhoddodd Nigel Semmence (Swyddog Cynllunio Wrth Gefn a Gwyddonol yr Undeb) adroddiad manwl ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd i leoli a dinistrio nythod cacwn. Ailadroddwyd y cyflwyniad hwn yn y Sioe Fêl Genedlaethol. Rhoddodd Maggie Gill gyflwyniad am Gacynen Asia yn y DU i gyfarfod Cyngor CGC ym mis Tachwedd ac mae hwn ar gael ar wefan CGC.

Gweithredu Cynllun Gwenyn Iach 2030 – Un o'r prif bynciau a drafodwyd yn ystod 2023 oedd y cynnydd a wnaed ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynllun Gwenyn Iach 2030 a oedd yn ymwneud yn bennaf ag addysg gwenynwyr.

Mae CGC wedi gweithredu'r amcanion o dan y cynllun drwy'r canlynol:

- Darparu llyfrynnau addysgol newydd yn ogystal â dosbarthu llyfrynnau presennol i aelodau newydd
- Y gyfres gweminarau
- Annog gwenynwyr i gymryd y Dystysgrif Sylfaenol gan gynnwys recriwtio dau Aseswr newydd
- Cynyddu'r niferoedd sydd â Thystysgrif Iechyd Gwenyn
- Gwerthuso Cwrs Cadw Gwenyn yr NDB gan y rhai sydd wedi ei ddilyn.

Mae'r Fforwm Gwyddoniaeth wedi cyfarfod unwaith yn ystod y flwyddyn a disgwylir iddo gyfarfod eto yn gynnar yn 2024. Mae rhestr o'r projectau gwyddonol cyfredol sydd ar y gweill yn y DU, eu cynnydd hyd yma a'u ffynhonnell ariannu wedi cael ei pharatoi a'i thrafod. Cynhelir rhagor o gyfarfodydd yn 2024. Datblygiad pwysig yw bod Kirsty Stainton bellach wedi ailymuno â'r Uned Wenyn Genedlaethol fel Rheolwr Technegol.

Y Cyfrif Cychod Blynyddol – ailadroddwyd hwn yn 2023 ond does dim canlyniadau ar gael wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Lefelau Varroa 2023 – Dim gwybodaeth fanwl ar gael. Atgoffodd Maggie Gill gynrychiolwyr BHAF WBKA ac Ysgrifennydd CGC fod Varroa yn dal i fod yn un o brif achosion colli cytrefi yng Nghymru. Ei chyngor yw y dylai gwenynwyr sy'n dymuno lleihau triniaeth Varroa fonitro lefel y widdon yn eu cytrefi. Dylid defnyddio technegau Rheoli Plâu Integredig pan fydd lefelau Varroa yn mynd yn ddigon uchel i effeithio ar iechyd cytref. Roedd Maggie wedi bwriadu ysgrifennu erthygl am Reoli Plâu Integredig ar gyfer rhifyn yr haf o Wenywyr Cymru. Yn anffodus, ni dderbyniwyd yr erthygl ond mae rhagor o wybodaeth ar wefan BeeBase.

Cyhoeddiadau Technegol CGC – Mae stociau o lyfryn CGC **'Mae celloedd brenhines yn fy nghwch, beth dylwn i ei wneud?'** wedi dod i ben ac mae'n cael ei ailargaffu ar hyn o bryd.

Yswiriant

Mae'r newidiadau i ddiffiniadau o'r hyn a olygir gan aelodaeth a wnaed dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi ein galluogi i fod yn fwy hyderus bod y wybodaeth a roddwyd gennym pan wnaethom ofyn am ddyfynbrisiau yswiriant yn gywir. Mae hefyd yn ein galluogi i ganolbwyntio ar faterion eraill megis yswiriant gwenynwyr ifanc (dan 18 oed) a oedd yn cadw gwenyn yn annibynnol.

Eleni gofynnwn ni am ddyfynbrisiau gan ddau frocer, Jensten, ac Aston Lark (sydd bellach wedi newid i Howden), y cwmni sy'n frocer i'r BBKA. Llwyddodd y broses i leihau'r premiwm cyffredinol ar gyfer CGC a'i Haelod-Gymdeithasau tua £1200 ar gyfer yswiriant tebyg (gweler nodyn 1 isod) yn ogystal â darparu yswiriant ar gyfer gwenynwyr annibynnol o dan 18 oed.

Nodyn 1: Mae'r prif wahaniaeth rhwng y ddau bolisi o ran diffiniadau o dan Atebolrwydd Cynnyrch.

Mae geiriad polisi Jensten yn defnyddio'r ymadrodd "Sale of bee-related products including honey, creams/balms and salves made from products of the hive".

Mae Aston Lark (Howden) yn defnyddio'r disgrifiad "Gweithgynhyrchu a chyflenwi cynhyrchion cwch cynradd". Maen nhw wedi nodi na fydd yswiriant yn berthnasol i werthu cynhyrchion sy'n cynnwys cynhyrchion nad ydynt yn cael eu cynhyrchu gan gychod gwenyn. Cynghorir unrhyw un sy'n paratoi cynhyrchion o'r fath i'w gwerthu i ystyried yswiriant ar wahân.

Iechyd a Diogelwch

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi adolygu ein Polisi Iechyd a Diogelwch ac wedi argymhell bod ein Haelod-Gymdeithasau'n gwneud y canlynol:

- a. Cynhyrchu dogfen debyg.
- b. Enwebu aelod o'r pwyllgor i fod yn gyfrifol am sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal ac unrhyw gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd yn unol â'r awgrymiadau a wnaed yn "Asesiadau Risg – Canllaw syml" sydd ar ein gwefan.

Hyd yn hyn dydy pob Cymdeithas ddim wedi cynhyrchu tystiolaeth o eu bod yn cydymffurfio â'r arweiniad hwn sydd wedi'i fwriadu'n dda.

Atgoffir Aelod-Gymdeithasau bod angen iddynt gymryd camau i nodi risgiau a sicrhau bod y rhai sydd angen gwybod beth a ddisgwylir ganddynt i ddangos tystiolaeth o'r ddyletswydd gofal ofynnol. Os na chymerir y camau hyn, nad oes angen iddyn nhw fod yn feichus, gallai diogelwch ac iechyd y cyhoedd ac yn enwedig aelodau newydd, nad ydyn nhw efallai'n ymwybodol o risgiau posibl, gael eu peryglu. Gallai hyn arwain at ganfod bod yr Aelod-Gymdeithas ar fai mewn unrhyw ymchwiliad.

Diogelu

Fel y soniwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, mae Polisi Diogelu CGC newydd wedi'i gyhoeddi eleni ac ategir hwn gan Ganllawiau Diogelu a DBS. Mae hyn yn cysylltu â deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol sy'n berthnasol yng Nghymru. Y bwriad yw cefnogi Aelod-Gymdeithasau i sicrhau bod ganddyn nhw bolisiau ac ardystiadau priodol ar waith, sy'n berthnasol i'w gweithgareddau penodol.

Cyswllt Chwistrellu

Bu digwyddiad chwistrellu anfaleisus ac anfalaen, diolch byth, yn ne Rhanbarth Meirionnydd ym mis Mehefin y llynedd yn sbardun i wneud adolygiad o gyfathrebu a chyngor chwistrellu Cenedlaethol. Nododd yr adolygiad ddogfen ganllaw HM Gov y DU a oedd wedi'i hysgrifennu'n dda, sef y Cod Ymarfer ar Ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion, nad oedd yn hawdd dod o hyd iddi a'r pryder mwyaf oedd bod y wybodaeth gyswllt ar gyfer CGC yn hen.

Cysylltwyd â phob un o Aelod-Gymdeithasau CGC i weld a oedd ganddynt brosesau rheoli chwistrellu (i weld a oedd gan unrhyw un system dda iawn) a gofynnwyd am wirfoddolwr â gwybodaeth pwnc (SMK) fel cynrychiolydd CGC. Dechreuwyd cyfathrebu â'r NBU i gael y cyngor chwistrellu diweddaraf (ac efallai i helpu i ddiwygio'r Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion) a gofynnwyd i dîm Bee Connect, sydd wedi cael canmoliaeth fawr, am gymorth/arweiniad.

Wrth ysgrifennu'r adroddiad rydyn ni'n aros am ymatebion gan yr NBU a Bee Connect. Dydyn ni ddim wedi dod o hyd i wirfoddolwr SMK. Rydyn ni'n awyddus i beidio ag ailddyfeisio'r olwyn er ein bod wedi cael cynigion i gynhyrchu map chwistrellu nad yw'n annhebyg i'r map casglu heidiau presennol. Mae'n ymddangos bod Bee Connect yn gwneud popeth y byddai ei angen arnom fel gwenynwyr, ond bod yr holl wenynwyr ac unrhyw un sy'n chwistrellu yn ei ddefnyddio. Felly mae'r canolbwynt ar hyn o bryd ar gywiro'r Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion i gyfeirio at wefan CGC a/neu Bee Connect; ar yr amod y bydd Bee Connect yn caniatáu hyn.

Mae'r prosiect yn un sy'n mynd i bara tipyn o amser. A gallwn ddeall gyda'r holl weithgaredd ynghylch cacwn Asia pam nad yw'r NBU yn arbennig wedi ymateb eto. Mae'n ymddangos bod yr Aelod-Gymdeithasau wedi cael llawer o adroddiadau am chwistrellu o awyrennau ac er bod chwistrellu'n fgythyriad sylweddol i bryfed peillio, dydyn ni ddim wedi cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau diweddar sy'n peri pryder.

Mae cyfathrebu'n allweddol i'r broblem hon. Mae angen i'r Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion fod yn haws dod o hyd iddo ac mae angen ei gywiro. Mae angen i ni helpu unrhyw un sy'n chwistrellu i ddod o hyd i'r Cod Ymarfer a gobeithio mai Bee Connect fydd y cyfrwng rhwng chwistrellwyr a gwenynwyr.

Pe hoffai unrhyw un sy'n darllen hwn ein helpu, cysylltwch â paul.pearce@wbka.com

Tasglu Peillwyr Cymru

Cynrychiolwyd CGC mewn dau gyfarfod yn 2023.

Roedd y themâu allweddol a drafodwyd yn 2023 yn ymwneud yn bennaf â chacwn Asia, glaswelltiroedd, eu hamrywiaeth, eu cysylltedd a'u rheolaeth:

- a) Yn berthnasol i Wenynwyr, rhoddodd Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol Cymru, Maggie Gill, gyflwyniad byr ar gacynen Asia, *Vespa velutina*. Roedd hyn yn cynnwys ei bod wedi'i chyflwyno i Brydain Fawr mewn pot clai a'r dosbarthiad diweddaraf gan gynnwys nyth a ddarganfuwyd cyn belled â Gogledd Swydd Efrog ac un yn Norfolk. Cafwyd mwyafrif y nythod, tua 70, ar hyd arfordir de Lloegr yng Nghaint. Ni chredir i bob nyth gael ei ddarganfod.

- b) Gwella coridorau bywyd gwyllt yn Ne Cymru yn bennaf ar gyfer gloÿnnod byw Britheg y Gors trwy blannu plygiau'r planhigyn bwyd, Tamaid y Cythraul, a magu lindys yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i'w dychwelyd i'r gwyllt.
- c) Gwerth rheoli ymylu ffyrdd drwy un weithred o dorri a chasglu er mwyn gwella amrywiaeth blodau a gyflwynir gan Grid Gwyrdd Gwent a Chyngor Sir Ddinbych. Mae'r rhan fwyaf o Gynghorau yng Nghymru bellach yn gwneud toriad sengl gyda chasgliad ar gyfer ymylon penodol a manau agored.
- ch) Pwysigrwydd dolydd blodau gwyllt a sut i'w creu gan ddefnyddio planhigion plwg ar gyfer dolydd bach a gwair gwyrdd ar gyfer dolydd mwy, yn ogystal â rheoli torri a chasglu ac aberthu i ganiatáu tir moel er mwyn i hadau egino. Yn gysylltiedig â hyn arweiniwyd astudiaeth dichonoldeb cynaeafu hadau gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r Ardd Fotaneg Genedlaethol Caerfyrddin gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith ar gyfer rhannu hadau blodau gwyllt brodorol o ffynonellau lleol y gellir eu defnyddio i greu, adfer neu wella cynefinoedd glaswelltir
- d) Yr effeithiau y mae coed a llwyni sy'n bargodi yn eu cael ar ddolydd, o ddail yn cwmpo gan gyfoethogi'r glastir ar draul blodau gwyllt.
- dd) Bu trafodaeth hefyd ar Isadeiledd Gwyrdd mewn ardaloedd trefol e.e. toeau gwyrdd ar gyfer toeau fflat a hefyd llochesi bysiau.

COLOSS

Yng Nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd, pleidleisiodd cynrychiolwyr o Aelod-Gymdeithasau CGC i roi'r gorau i ddsbarthu a chwblhau arolygon COLOSS oherwydd yr ymateb gwael iawn gan yr Aelod-Gymdeithasau i Arolwg 2023.

NDB (Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyna)

Aethom i Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2023 a gynhaliwyd yn ystod y Sioe Fêl Genedlaethol ym Mharc Sandown. Ymddiswyddodd Margaret Thomas fel Llywydd ac mae Clive De Bruyn bellach yn Llywydd dros dro. Bydd Cwrs Uwch 2024 ar 5-10 Gorffennaf yn Pershore. Bydd arholiad NDB yn 2024. Trafododd y cyfarfod ffyrdd o godi proffil NDB. Mae'r cyrsiau byr a gyflwynwyd wedi'u harwain gan alw.

CONBA (Cyngor Cymdeithasau Gwenyna Cenedlaethol)

Cynrychiolwyd CGC yn y ddau gyfarfod yn 2023. Mae Cyfarfod Rhyngwladol Gwenynwyr Ifanc wedi bod yn cael ei drafod a'r posibilrwydd o gynnal digwyddiad yn y DU i baratoi gwenynwyr iau at yr un Rhyngwladol. Hefyd, mae'r ymateb i gacwn Asia a llygru mêl hefyd wedi'u trafod. Mae pryder wedi'i godi am y gostyngiad yn nifer y Beirniaid Mêl a'r broses hirfaith i ddod o hyd i bobl yn eu lle. Mae'r pynciau hyn i gyd yn rhai parhaus. Ar gyfer 2023 dechreuodd Ffederasiwn Gwenynwyr Iwerddon (FIBKA) fynychu cyfarfodydd eto. Roedd hyn yn ychwanegiad i'w groesawu at y Cyngor.

Archif.

Mae'r archifau'n dal i fod yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ac rydyn ni'n ychwanegu atyn nhw pan mae'n rhaid.

ADRODDIADAU A ATODWYD

Atodiad 1: Aelodaeth 2023

Atodiad 2: Cyfrifon Blwyddyn Ariannol 2023

Atodiad 3: Cyllideb Diwedd Blwyddyn 2023 a Chyllideb 2023

Datganiad: Mae'r Ymddiriedolwyr yn datgan iddynt gymeradwyo adroddiad yr ymddiriedolwyr uchod

Llofnodwyd ar ran ymddiriedolwyr yr elusen.

Llofnod:

Enw llawn: Caroline Mullinex

Swydd: Cadeirydd

Dyddiad:

Welsh Beekeepers' Association

Accounts for the Year ended

31st December 2023

Registered Charity No 509929

Prepared by Graham Wheeler, Honorary Treasurer

Profit and Loss Account for the year ended 31st December 2023

	Notes	£	2023	£	2022	£
			£	£	£	
<u>Income</u>						
Capitation	1		18,180.00		17,811.00	
Individual Members - Fees	2		1,185.30		822.90	
Welsh Beekeepers Advertising	3		4,844.36		4,374.35	
Donations and Sundry Income	3a, 4		2,172.34		6,415.82	
<u>Convention</u>						
Income	4		6,556.10		5,608.74	
<u>Other Income</u>						
Bank Interest			91.68		13.95	
Exams Income	5		600.00		765.00	
Training	6		2,255.48		1,283.11	
Miscellaneous					7.98	
				35,885.26		37,102.85
<u>Expenditure</u>						
Administration	7		72.30		295.64	
Special Project	8		3,332.47		4,469.00	
Donations and Subscriptions	9		791.88		270.00	
Translation Costs	10		601.00		1,562.66	
Sundry expenses			123.03		165.33	
Bee Disease Insurance			201.50		187.90	
Software	13		3,287.01		3,118.63	
Insurance	11		2,699.49		3,518.56	
Exams Expenses	5		714.52		649.53	
Training costs	6		5,702.71		4,531.65	
Webinar Speaker Costs			290.00		200.00	
Meetings Internal					138.40	
Meetings Education			34.20		103.95	
Meetings External			83.40		49.80	
Meetings Editorial						
Meetings Council			37.80		33.60	
Meetings Trustees						
Welsh Beekeepers Magazine			14,995.92		13,750.91	
RWAS Spring Fair			356.54		365.11	
RWAS Summer			286.93		247.71	
WBKA Spring Convention	4		6,388.00		5,738.71	
Depreciation	12		927.74		1,037.63	
				40,926.44		40,434.72
Surplus for the Year				- 5,041.18		- 3,331.87

Balance Sheet as at 31st December 2023

	Notes	Opening value	Depreciation	Closing book value	Net. Book Value			Original cost
		£	£	£	2023	2022	2021	
Fixed Assets								
Location								
Banner	Events Sec.	171.97	34.39	137.57	137.57	171.97	214.96	1,026.00
Banner	Events Sec.	50.00	-	50.00	50.00	50.00	50.00	186.00
Editors Laptop HP250 G8	Editor	575.36	115.07	460.29	460.29	575.36	719.20	899.00
Treasurer's Laptop	Treasurer	94.77	18.95	75.82	75.82	94.77	118.46	451.90
Display Hive	Events sec.	71.70	14.34	57.36	57.36	71.70	89.62	273.50
6 Microscopes	Lynfa Davies	3,236.73	647.35	2,589.38	2,589.38	3,236.73		4,045.91
Epson Projector	Lynfa Davies	488.18	97.64	390.54	390.54	-	-	488.18
Total Depreciation	12		<u>927.74</u>					
Total Fixed Assets value		<u>4,688.70</u>		<u>3,760.96</u>	<u>3,760.96</u>	<u>4,200.52</u>	<u>1,192.24</u>	<u>7,370.49</u>
Current Assets								
HSBC Bank Account			2023		2022			
Scottish Widows 90 Day Account			10,166.11		20,779.55			
			10,344.38		10,252.70			
				<u>20,510.49</u>		<u>31,032.25</u>		
Total Assets :				<u>24,271.45</u>		<u>35,232.77</u>		
Debtors								
			4,804.36		3,105.60			
				4,804.36		3,105.60		
				<u>29,075.81</u>		<u>38,338.37</u>		
Creditors								
Creditors			-	0.45	4,164.58			
Prepayments				586.50	642.85			
				586.05		4,807.43		
Total Assets				<u>28,489.76</u>		<u>33,530.94</u>		
Opening Accumulated Funds								
Surplus				33,530.94		36,862.81		
				-5,132.86		-3,331.87		
Closing Accumulated Funds				<u>28,489.76</u>		<u>33,530.94</u>		

Notes to the Accounts for the year ended 31st December 2023

1 Capitation

2020 members and increase of 41 on the previous year

This constitutes the major income of the Association at £9 per member. Out of this is paid the publishing costs of the Welsh Beekeeper Magazine, Members Public Liability insurance and the Officers Insurance.

The balance is used to fund the running costs of the Association and initiatives for the benefit of members such as booklets and training.

2 Individual Membership

This is made up of £30 capitation per member an increase from £20 in the previous year plus their BDI premium

3 Welsh Beekeeper Magazine Advertising Revenue

3a Donations & Sundry Income

Donations	£
Welsh Government IMYB (International Meeting Young Beekeepers) Sponsorship	268.34
Local Association Sponsorship of IMYB Candidates	904.00
BDI sponsorship for convention	750.00
	250.00

2172.34

4 Convention Accounts

	£	£
Income		
Entrance Money	1792.71	
Early Bird Ticket sales	1725.39	
Trade Stands	3038.00	
BDI Donation	250.00	
		<u>6806.10</u>
Expenses		
Venue Hire	2736.00	
Equipment Hire	1157.70	
Accommodation	727.00	
Advertising	0.00	
Speakers	389.50	
St Johns Ambulance	249.60	
Sound System	504.90	
Programme	389.00	
Sundry expenses	234.30	
		<u>6388.00</u>
Surplus		<u>418.10</u>

5 Examinations

Income		
Basic Assessment fees	600.00	
		<u>600.00</u>
Expenses		
Exams Sundry Expenses	202.00	
Exams venue	35.00	
Exam Assessors' expenses	325.60	
Exams expenses (postage certificates)	151.92	
		<u>714.52</u>
Deficit		<u>-114.52</u>

6 Training Income & Expenditure

In 2022 the WBKA was awarded a grant of £6000; the award for use over 3 years in supporting the delivery of a programme of courses and workshops, on microscopy and other topics, which will contribute to increasing the knowledge and skill levels of WBKA members.

Income	-
Workshop receipts	2255.48
Expenditure	
Training Venues	2405.56
Sponsorship of members on teaching beekeeping course	440.00
Courses and Workshop provision	<u>2857.15</u>
	<u>5702.71</u>
Net. Expenditure:	<u>3447.23</u>

7 Administration

Bank charges	<u>72.30</u>
	<u>72.30</u>

8 Special Projects

IMYB (International Meeting Young Beekeepers) Entry Fee	904.00	(Welsh Government Sponsored this with a donation)
IMYB Travel	2,282.40	(Attendees home local associations donated £750 towards this)
IMYB Sundry expenses	146.07	
	<u>3,332.47</u>	(Balance of £1678.47 after sponsorship)

9 Subscriptions and donations

RWAS Membership	190.00
CONBA Membership	102.50
Apimondia Membership	95.68
UK National Honey Show Membership	80.00
RWAS Honey Show	250.00
Bees Abroad donation	73.70
	<u>791.88</u>

10 Translation Costs

Annual report, and policies	<u>601.00</u>
	<u>601.00</u>

11 Insurance

Members Combined Liability, Trustee's and Officers Liability	2595.64
Microscopes	<u>103.85</u>
	<u>2,699.49</u>

12 Depreciation

Items over the value of £100 are depreciated at a rate of 20% until there is a residual balance of £50. They are kept at this value until such time as it is decided to dispose of the asset.

13 Software

Webinar and Meetings Software	1,942.41
Web Page & Domain	109.99
Virus protection	99.99
Adobe Indesign and photo manipulation software subs.	357.63
MS Office 365 subscription	79.99
eR2 subscription	<u>697.00</u>
	<u>3,287.01</u>

Schedule of Income for the year ended 31st December 2023

	£
Capitation - Income from member Associations	18,180.00
Individual Membership	1,185.30
Advertising Income	4,844.36
Sundry Income & Donations	2,172.34
Income from the Convention	6,556.10
Bank Interest	91.68
Examinations	600.00
Workshop fees	2,255.48
Misc.	0.00

	35,885.26
	=====



Report to the trustees/
members of

Welsh Beekeepers' Association

On accounts for the year
ended

31st December 2023

Charity no
(if any)

509929

Set out on pages

(remember to include the page numbers of additional sheets)

I report to the trustees on my examination of the accounts of the above charity ("the Trust") for the year ended 31/12/2023.

Responsibilities and basis
of report

As the charity's trustees, you are responsible for the preparation of the accounts in accordance with the requirements of the Charities Act 2011 ("the Act").

I report in respect of my examination of the Trust's accounts carried out under section 145 of the 2011 Act and in carrying out my examination, I have followed all the applicable Directions given by the Charity Commission under section 145(5)(b) of the Act.

Independent examiner's
statement

I have completed my examination. I confirm that no material matters have come to my attention in connection with the examination which gives me cause to believe that in, any material respect:

- the accounting records were not kept in accordance with section 130 of the Charities Act; or
- the accounts did not accord with the accounting records; or
- the accounts did not comply with the applicable requirements concerning the form and content of accounts set out in the Charities (Accounts and Reports) Regulations 2008 other than any requirement that the accounts give a 'true and fair' view which is not a matter considered as part of an independent examination.

I have no concerns and have come across no other matters in connection with the examination to which attention should be drawn in this report in order to enable a proper understanding of the accounts to be reached.

Signed:

Date:

28/03/2024

Name:

Stephanie Craney (MAAT)

Relevant professional
qualification(s) or body (if
any):

Association Of Accounting Technicians

Address:

Anwylfa, Tan Lan, Holywell, CH8 9UU

Only complete if the examiner needs to highlight material matters of concern (see CC32, Independent examination of charity accounts: directions and guidance for examiners).

Give here brief details of any items that the examiner wishes to disclose.

--